

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybie, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Tachwedd 18^{fed}, 2020 am 7.00 yh

Presennol

Cynghorwyr R. A. Davies Mrs K.D.L Davies W.D. Evans
 Mrs C. Thomas Mrs Ll. Latham

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr I. Rh. Llewelyn

792.

DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant

793.

Ffigurau'r Gyllideb ar gyfer Praesept 2021 -22

Roedd y Clerc wedi dosbarthu, yn flaenorol, copïau manwl o'r ffigurau cyllideb a awgrymir a'r balansau diwedd blwyddyn ar gyfer cyfrifon y Cyngor.

794.

Prosiectau Cyfalaf

Roedd yr Aelodau wedi addolygu blaenoriaethau'r Cyngor o ran prosiectau cyfalaf ac **argymhellwyd** cymeradwyo'r canlynol fel rhan o raglen y flwyddyn nesaf:

Prosiectau ar gyfer 2021/2022

- 1) Amnewid y ffens ym Mharc Penygroes £2000
- 2) Teledu Cylch Cyfyng ym mharc Penygroes £8000
- 3) Adolygiad blynyddol o'r meinciau ochr ffordd £1000
- 4) Matiau blodau gwyllt/ Plannu coed ffrwythau £3000
- 5) Gwelliannau amgylcheddol ym Monllwyn £2000
- 6) Mainc ochr ffordd yn Heol Woodfield, Llandybie £1000

795.

Parciau a Mannau Chwarae

Yn ychwanegol, **argymhellwyd** clustnodi £50,000 at ddefnydd cynnal a chadw ac atgyweirio'r parciau. Roedd buddsoddi yn y parciau yn dilyn Trosglwyddo Asedau wedi bod yn werth chweil gan fod pob parc, ar hyn o bryd, o risg isel. Serch hynny, yn llawer o'r parciau roedd arwynebedd y lloriau wedi dirywio a bydd rhaid mynd i'r afael â hyn er mwyn atal dirywiad pellach yn eu cyflwr.

796.

Crynodeb o Ffigurau'r Gyllideb: 2021-2022

INCWM	£
Praesept	180,000
Llog: Lloyds	150
Llog: cyfrifon buddsoddi	250
Hawliau Tramwy	3,000
Cytundebau Llogi	4,700
Hawlio TAW yn ôl	25,000
	<hr/>
	212,100
 GWARIANT	
Cyflogaeth	47,761
Costau Mangre	16,850
Gwasanaethau Swyddfa	4,650
Costau'r Aelodau	2,900
Gwasanaethau a Thanysgrifiadau	8,400
Taliadau Adran 137	
Taliadau yn unol â phwerau eraill	
Mannau agored cyhoeddus	
Neuaddau Pentref	
Claddfeydd	18,000
Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	
Hawliau Tramwy – gwelliannau	10,000
Goleuo cyhoeddus - ynni	
Goleuo cyhoeddus - gwelliant	21,000
Cyfleusterau Cyhoeddus	13,000
Atgyweirio ac amnewid yn y parciau	50,000
Torri'r glaswellt/ casglu sbwriel/ cyfleusterau	28,000
Prosiectau Datblygu Cymunedol	17,000
Cyfanswm	<hr/> <hr/>
	261,561

Defnyddir y swm o £ 51,461 o gronfa wrth gefn y Cyngor i unioni'r diffyg.

Argymhellwyd bod y ffigurau uchod, sy'n cynnwys codiad cyflog o un pwynt cyflog i'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol, yn cael eu gosod gerbron cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor, a gynhelir ar Ragfyr 2^{il}, 2020.

Hefyd, argymhellwyd bod y Cronfeydd wrth Gefn yn cael eu nodi fel a ganlyn:

Cronfeydd wrth Gefn a Neilltuwyd

£150 mil – parciau a mannau chwarae

Eisoes wedi'u neilltuo o'r cronfeydd wrth gefn:-

- | | |
|---|-------|
| 1) Hysbysfwrdd Rheilffordd Calon Cymru | £1000 |
| 2) Llif-oleuadau i Glwb Rygbi Penygroes | £2000 |

Cronfa wrth Gefn Gyffredinol - £103 mil

Mae hyn yn hafal â 6.86 mis o'r praesept, neu 4.7 mis o'r gwariant gros a gyllidwyd.

797.

Praesept

Yn ychwanegol, cytunwyd **argymell** i'r Cyngor Llawn bod y praesept yn cael ei gadw fel ag y mae, sef £180,000.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Band D Treth y Cyngor yn yr ardal am y flwyddyn 2020/ 21 yn £41.25, swm sy'n cymharu yn ffafriol iawn gydag ardaloedd Cyngorau cyfagos eraill.

798.

Adolygu'r gweithdrefnau Archwilio Mewnol

Cwmpas yr Archwiliad Mewnol – Atgoffwyd yr Aelodau taw Mr Lyn Llewelyn yw archwilydd mewnol penodedig Cyngor Cymuned Llandybie. Cafodd ei benderfynu, mewn cyfarfod blaenorol o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar Fehefin 24^{ain} 2020, y byddai'n parhau fel archwilydd mewnol ar gyfer 2020/2021. Roedd yr Aelodau wedi adolygu'r llythyr Cynnig Gwasanaethau Archwilio Mewnol, a oedd yn cyfeirio'n benodol at ei annibyniaeth a chymhwysedd, ei ymlyniad at y cynllun archwilio mewnol a'i ffioedd.

Annibyniaeth – Hysbysodd y Clerc yr Aelodau y byddai Mr Llewelyn yn parhau i gynnal yr archwiliad heb ddylanwad gormodol neu wrthdaro buddiannau.

Cymhwysedd – Mae Mr Lyn Llewelyn wedi bod yn cynnal archwiliad mewnol y Cyngor am flynyddoedd lawer ac yn gwbl gymwys i wneud y gwaith. Mae ganddo flynyddoedd lawer o brofiad o Llywodraeth Leol, mae'n gyn Ddirprwy Brif Weithredwr a Swyddog Cyllid Un Llais Cymru ac yn Glerc ar ddau Gyngor lleol.

Cysylltiadau – Nid oes gan Mr Llewelyn unrhyw gysylltiad gyda'r Clerc/ y Swyddog Cyllid Cyfrifol, neu gydag unrhyw Gyngorydd Cymuned.

Archwiliad - Cynllunio ac Adrodd yn Ôl – Roedd yr Aelodau wedi penderfynu derbyn adroddiad yr Archwilydd Mewnol am y flwyddyn 2019/2020 mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar Fehefin 24^{ain} 2020. Dyma'r Cofnod perthnasol:-

Roedd y Clerc wedi darllen adroddiad a sylwadau'r Archwilydd Mewnol, a oedd yn datgan bod yr holl ofynion rhagnodedig o ran systemau rheoli mewnol y Cyngor wedi'u cwblhau yn foddhaol. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r archwiliad yr oedd angen eu doddi gerbron y

Cyngor ac roedd yr adran benodol o'r Ffurflen Flynyddol wedi'i chwblhau gan yr archwilydd mewn modd a oedd yn adlewyrchu ei ganfyddiadau.

Yn ychwanegol, roedd yr Archwilydd wedi dweud bod y cofnodion ariannol yn dal i gael eu cynnal i safon broffesiynol uchel, a bod y trywydd archwilio yn un ardderchog.

Roedd yr Archwilydd wedi argymhell bod Cofrestr Asedau y Cyngor yn cael ei diweddarau er mwyn adlewyrchu'r offer ychwanegol a brynwyd i'w osod yn y parciau, ac roedd y Clerc eisoes wedi gwneud hyn.

O ystyried yr adroddiad, roedd yr Aelodau wedi **argymhell** nad oedd angen gwneud unrhyw gynlluniau gweithredu, archwiliadau neu adolygiadau mewnol pellach, a bod y system bresennol yn effeithiol ac yn effeithlon, ac yn sicrhau bod gweithdrefnau archwilio mewnol Cyngor Cymuned Llandybïe yn ddigonol at ddibenion rheoli.

799.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.40 yh